Rhan 3B – Cylch Gorchwyl a Dirprwyo Dyletswyddau i Is-bwyllgorau a Chyrff eraill

2.2 Bwrdd Twf Rhanbarthol

Cyfansoddiad, Cworwm a Phleidleisio

2.2.1 Mae'r Bwrdd Twf Rhanbarthol wedi'i ffurfio o hyd at 14 Aelod, yn cynnwys o leiaf 4 ond nid mwy na 12 aelod nad ydynt yn gynghorwyr o'r cymunedau busnes, academaidd a thrydydd sector rhanbarthol, 1 Aelod Gweithrediaeth o Gyngor Cyfansoddol sydd hefyd yn aelod o (ac a enwebwyd gan) yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol, ac 1 Aelod Gweithrediaeth Cyngor Cyfansoddol sydd hefyd yn aelod o (ac a enwebwyd gan) yr Is-bwyllgor Datblygu Strategol.

2.2.2 Bydd Cadeirydd y Bwrdd Buddsoddi'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Twf Rhanbarthol a gall siarad ond ni fydd ganddo hawl i bleidleisio ar unrhyw fater.

2.2.3 Gall y Bwrdd Twf Rhanbarthol gyfethol pobl yn aelodau sydd â buddiant ym musnes yr Is-bwyllgor, ond ni chaiff y cyfryw berson(au) cyfetholedig bleidleisio ar unrhyw fater.

2.2.4 Mynychir y Bwrdd gan Brif Weithredwyr 3 o'r Cynghorau Cyfansoddol, a enwebwyd gan Grŵp y Prif Weithredwyr Rhanbarthol, y gellir eu gwahodd i siarad ond ni chaniateir iddynt bleidleisio ar unrhyw fater.

2.2.5 Cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Twf Rhanbarthol fydd 4 aelod sydd â hawl i bleidleisio, yn ogystal â'r Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd.

Swyddogaethau

2.2.6 Bydd y Bwrdd Twf Rhanbarthol yn darparu arweiniad a chynghorion i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol ynglŷn â materion llywodraethu a chyflawni economaidd rhanbarthol.

2.2.7 Daw'r Bwrdd Twf Rhanbarthol â llais busnes, Addysg Uwch ac Addysg Bellach, y gymuned a thirwedd ehangach partneriaeth y sector cyhoeddus i weithgareddau cynllunio, llunio polisïau a darpariaeth fwy cyffredinol y Cyd-bwyllgor Corfforaethol er mwyn sicrhau bod ystod amrywiol o farnau a safbwyntiau'n cael eu cynnwys mewn llunio polisïau effeithiol. Ni ddylai fod yna agenda wleidyddol yn perthyn i'r Bwrdd, a daw ei aelodau o drawstoriad

eang o bartneriaid, sy'n sicrhau ei fod yn allanol ei fryd ac yn agored i wahanol ffyrdd o feddwl.

2.2.8 Bydd y Bwrdd yn cyflawni'r swyddogaethau a ganlyn:

(1) darparu rhagwelediad strategol ac arweinyddiaeth syniadau i hysbysu'r strategaeth ranbarthol a fframweithiau polisi fydd yn tywys y gorchwyl o ddatblygu fframweithiau buddsoddi a gwneud penderfyniadau buddsoddi;

(2) ystyried a chynghori ar gyfleoedd a ddygwyd ymlaen trwy Dîm Arweinyddiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, eu partneriaid a'u rhwydwaith i sicrhau rhagor o fuddsoddi, cyfleoedd a chydweithrediadau sy'n cysoni â blaenoriaethau ac amcanion y cytunwyd arnynt;

(3) darparu mewnbwn a sylwadau i hysbysu datblygiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Strategol Rhanbarthol ar adegau priodol yn eu datblygiad, er mwyn sicrhau cysondeb â'r Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol a chyflawni buddion synergaidd;

(4) tarddu ac archwilio cynigiadau buddsoddi newydd, yn unol â'r Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd, a rhyngwynebu â'r Bwrdd Buddsoddi, i helpu i ddatblygu cynigiadau a all hysbysu tirwedd fuddsoddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a chyflawni amcanion polisi allweddol;

(5) hysbysu a chynorthwyo datblygiad cysylltiadau cyflenwi polisïau drwy weithio'n agos â'r Bwrdd Buddsoddi ar fframweithiau ar gyfer cyflawni rhaglenni allweddol, megis y Parth Buddsoddi, arian sy'n olynu cronfeydd yr UE a chyfleoedd prosiectau ac ariannu allanol mwy cyffredinol;

(6) goruchwylio proses ac amseriad adolygiad economaidd, gan sicrhau sylfaen dystiolaeth hollol gyfoes a galluoedd data yn y rhanbarth;

(7) cynghori'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol ynglŷn â'r cyfleoedd a'r potensial a geir gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol i uchafu pwerau newydd, liferi buddsoddi ac offer polisi newydd;

(8) ysgogi mentrau a phartneriaethau polisi allweddol, yn neilltuol yn ymwneud â data rhanbarthol, cystadleurwydd a llunio polisi, cymryd rhan mewn cyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd a phartneriaethau cyfnewid a throsglwyddo gwybodaeth;

(9) bod â rôl eiriolaeth ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel lleoliad buddsoddi dethol a meddu ar ffocws allanol a ddaw â deallusrwydd a mewnwelediadau am sut mae da yn edrych i'r rhanbarth;

(10) gweithredu fel rhyngwyneb â bargeinion dinesig eraill yn y Deyrnas Unedig a phartneriaethau twf economaidd rhanbarthol, gan weithio gyda'r dinasoedd eraill hyn i rannu profiadau, arbenigedd ac adnoddau;

(11) derbyn diweddariadau rheolaidd gan y Bwrdd Buddsoddi am y Fframwaith Buddsoddi, cynlluniau cyflenwi ac arfarniadau buddsoddi – er mwyn olrhain cynnydd a chysoni polisi â darpariaeth;

(12) adolygu, lle y bo'n ofynnol gan y Bwrdd Buddsoddi, argymhellion ar gynigiadau buddsoddi er mwyn darparu barnau a safbwyntiau ar achosion anarferol neu unigryw.